PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 24 IONAWR 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Hugh Thomas(Cadeirydd) |
| | Gavin McArthur, David Price, Dr. Janet Wademan, |
| | Cyng Carr, Goodway, Lewis, Moultrie, Palmer, Waldron a/ac Williams |

66 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim ymddiheuriadau am absenoldeb.

67 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Williams fuddiant personol yn Eitem 4 gan fod aelod o'i deulu yn gweithio o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes.

68 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 a 29 Tachwedd 2022 fel cofnodion cywir, yn amodol ar nifer o newidiadau teipograffig.

69 : DIWEDDARIAD AR AMGYLCHEDD RHEOLI Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG A DYSGU GYDOL OES - I DDILYN

Datganodd y Cynghorydd Williams fuddiant personol yn yr eitem hon gan fod aelod o'i deulu yn gweithio o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi diweddariad ar yr amgylchedd rheoli yn y Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys trosolwg cynhwysfawr o strwythur yr Uwch Dîm Rheoli, y fframwaith gwella ysgolion, ysgolion sy'n achosi pryderon, gwaith llywodraethu'r Rhaglen Ad-drefnu Ysgolion, gwaith rheoli risg, gwaith archwilio mewnol a sicrwydd.  Roedd crynodeb o waith rheoli cyllideb a gwerth am arian wedi'i gynnwys hefyd.  Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariadau penodol ar reoli balansau ysgolion; systemau i adolygu fforddiadwyedd y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif; a phrosesau ymdrin â chwynion.

Croesawodd y Cadeirydd Mel Godfrey, y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes i'r cyfarfod.  Gwahoddwyd y Cyfarwyddwr i roi cyflwyniad.

Dechreuodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr eitem hon.  Cafodd yr Aelodau wahoddiad i ofyn cwestiynau, ceisio eglurhad neu wneud sylwadau am y wybodaeth a dderbyniwyd.  Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

• Nododd yr Aelodau y balansau mawr a ddelir gan nifer cyfyngedig o ysgolion. Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr sylwi ar hyn.  Dywedodd y Cyfarwyddwr fod ysgolion yn

wynebu sefyllfa gyllidebol eithriadol.  Nid yw'r balansau a ddelir o reidrwydd o ganlyniad i gyllid o gyllidebau ysgolion dirprwyedig a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol yn unig.  O ganlyniad i'r pandemig, llwyddodd rhai ysgolion i sicrhau cymorth grant gan y Llywodraeth.  Mae rhai ysgolion hefyd yn dda iawn wrth gynhyrchu incwm.  Mae'r ysgolion hyn mewn sefyllfa dda i roi cymorth ychwanegol i ysgolion eraill yng Nghaerdydd a ledled Cymru.  O ran rheolaeth, mae Swyddogion o fewn y Gyfarwyddiaeth yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr adran Cyllid i sefydlu eu proffil gwariant a osodwyd yn erbyn eu cyllideb ddirprwyedig.  Mae cysylltiadau gyda'r ysgolion ar lefel Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cynorthwyol a Rheolwr Gweithredol yn benodol o ran cyllidebau.

- Nododd Aelod fod y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol yn ddiweddar ac oherwydd hyn byddai chweched dosbarthiadau ysgolion dan drefn cyllido a rheoleiddiol newydd.  Gofynnodd Aelod pa waith paratoi a chodi ymwybyddiaeth y mae’r Gyfarwyddiaeth wedi’i wneud cyn y newid rheoleiddiol hwn ac i ba raddau yr oedd ysgolion yn cael cymorth i baratoi ar gyfer y newid hwn.  Dywedodd y Cyfarwyddwr fod sgwrs barhaus yn cael ei chynnal gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru er mwyn deall, goruchwylio a gweithredu'r trefniadau newydd sy'n dod.  Mae sgyrsiau rheolaidd hefyd yn cael eu cynnal gydag ysgolion uwchradd.  Mae fframwaith ar gyfer gweithredu'r gofynion newydd yn ei le ac mae’r ysgolion wedi’u paratoi.

- O ran Archwilio Mewnol, nododd yr Aelodau fod gan 12 ysgol gamau gweithredu heb eu cwblhau, gyda rhai ohonynt yn dyddio'n ôl i 2019/20.  Gofynnodd yr Aelodau pa adolygiadau o systemau a fframweithiau llywodraethu ysgolion sy'n cael eu cynnal a sut mae effeithiolrwydd y trefniadau hynny'n cael ei fesur.  Dywedodd y Cyfarwyddwr ei bod yn bwysig deall y cyd-destun y mae ysgolion wedi bod yn gweithredu ynddo ers y ddwy flynedd ddiwethaf a arweiniodd at gau ysgolion yn aml a chau ysgolion yn rhannol.   Mae ysgolion wedi wynebu'r heriau wedi’u creu wrth i'w disgyblion fod gartref am gyfnod mor estynedig.  Serch hynny, mae angen i Benaethiaid a Chyrff Llywodraethu sicrhau bod y rheolaethau a'r mecanweithiau cywir ar waith.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod argymhellion archwilio yn cael eu monitro'n rheolaidd, a bod mynd i'r afael ag argymhellion archwilio yn flaenoriaeth lwyr.  Yn ogystal, bydd proses 'Risgiau Pob Ysgol' hefyd yn mynd i'r afael ag unrhyw argymhellion archwilio heb eu cwblhau, wedi’u gosod yn erbyn cyd-destun unrhyw faterion eraill sy'n digwydd mewn ysgolion.

- Gofynnodd Aelod i ba raddau mae Llywodraeth Cymru’n pennu, neu’n gwneud yn ofynnol, fframweithiau llywodraethu a rheoli ar gyfer prosiectau a ddarperir gan y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, ac a oedd yr awdurdod yn gwyro oddi wrth y canllawiau/gofynion hynny.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn drefniant partneriaeth hyblyg gyda Llywodraeth Cymru yn darparu'r gyfran fawr o gyllid.  Mae Llywodraeth Cymru yn pennu blaenoriaethau'r rhaglen ac mae'r awdurdod yn gweithio o fewn y paramedrau hynny ond mae’n gwneud penderfyniadau'n lleol ar y prosiectau penodol o fewn y rhaglen gyda'r bwriad o fynd i'r afael ag angen yn y system.

• Gofynnodd Aelod a fyddai'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Consortiwm Canolbarth y De yn destun craffu. Dywedodd y Cyfarwyddwr mai Cyd-bwyllgor sy'n cynnwys y Prif Weithredwr Arweiniol, y Cyfarwyddwr Arweiniol a’r Aelodau Cabinet dros Addysg o’r pum awdurdod lleol cyfansoddol yw'r mecanwaith rheoli trosfwaol. Dan hynny mae lefel arall o drefniadau llywodraethu gan gynnwys Bwrdd Rheoli. Yn ogystal, mae llu o fyrddau a threfniadau rheoli eraill.

• Rhoddodd y Cyfarwyddwr eglurhad pellach ar nifer o'r pwyntiau a godwyd uchod. Mae trefniadau Llywodraethu Ysgolion wedi'u nodi mewn deddfwriaeth statud a byddai'r broses 'Risgiau Pob Ysgol' yn darparu mecanwaith adolygu ar gyfer y trefniadau hynny. Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaeth statudol i'r AALl ymyrryd pan fydd rhai amodau'n cael eu bodloni. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr nad yw'r awdurdod wedi gwyro oddi wrth ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Cynhaliodd Consortiwm Canolbarth y De adolygiad annibynnol o'i waith llywodraethu cyn y pandemig. Mae Estyn hefyd yn cynnal dadansoddiad thematig o drefniadau gwella ysgolion ledled Cymru.

• Nododd Aelod y bydd Strategaeth Caerdydd 2030 yn cael ei hadolygu. Gofynnodd Aelod a fyddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i ystyried y strategaeth newydd ac a fyddai tymor y strategaeth yn mynd y tu hwnt i 2030. Cytunodd y Cyfarwyddwr i rannu Strategaeth Caerdydd 2030 newydd gyda'r Pwyllgor. Gweledigaeth 10 mlynedd oedd y Strategaeth, a bwriad yr adolygiad oedd gwerthuso'r strategaeth a chael ymdeimlad o flaenoriaethu o ran ei nodau. Yn allweddol i hynny fyddai distyllu'r blaenoriaethau hynny yn gynllun 3 blynedd y gellir ei gyflawni.

• O ran y galw am leoedd ysgol, gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw fesurau ataliol i ymateb i'r galw am leoedd ysgol yn rhagweithiol, yn enwedig o ran demograffeg yn y sector ysgolion uwchradd. Dywedodd y Cyfarwyddwr mai un o brif flaenoriaethau'r adran fyddai gwella ei dealltwriaeth o ddata. Mae swm sylweddol o ddata yn cael ei dderbyn, gan gynnwys data'r Cyfrifiad, ond mae angen gwella dealltwriaeth o ddata amser real er mwyn sicrhau bod y nifer cywir o leoedd yn cael ei darparu yn yr ysgolion cywir i fynd i'r afael â her anghenion dysgwyr. Cefnogodd Aelod symudiadau'r Adran i ddeall data amser real a byddai'n croesawu sesiwn friffio bellach am hyn yn benodol mewn cyfarfod yn y dyfodol.

• Gofynnodd Aelod a oedd lle i amrywio niferoedd derbyn mewn ysgolion er mwyn sicrhau gwerth am arian ar draws y Ddinas. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod Niferoedd Derbyn Safonol ar gyfer ysgolion yn bendant a bod cyfle cyfyngedig i’w hamrywio mewn amgylchiadau esgusodol. Rhaid i'r Adran hefyd fod yn ymwybodol o gapasiti adeiladau ysgolion a'r adnoddau addysgu sydd ar gael. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod galw cynyddol i leihau maint dosbarthiadau mewn rhai rhannau o'r ddinas o ganlyniad i'r heriau sy'n deillio o bandemig Covid-19.

• Gofynnodd Aelod am fwy o fanylion yn ymwneud â'r ysgolion a nodwyd fel achos pryder a'r mesurau sydd wedi’u gweithredu i gynorthwyo’r ysgolion hynny. Gofynnwyd am sicrwydd hefyd y byddai camau cadarn yn cael eu cymryd lle bo hynny'n briodol. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai partneriaid gwella ysgolion yn

cyfeirio at ysgolion o’r fath fel 'ysgol sydd angen mwy o gymorth'.  O ran y sefyllfa yng Nghaerdydd, o 16 o arolygiadau Estyn, mae angen i 1 ysgol wella’n sylweddol ac mae 1 ysgol yn cael ei hadolygu.  Mae'r trefniadau atebolrwydd, gwella a gwerthuso newydd gan Lywodraeth Cymru yn golygu y bydd yr awdurdod yn cael ei werthuso ar y cymorth a roddir i ysgolion.  Mae'r Adran yn ymwybodol iawn ac yn canolbwyntio ar y cymorth a roddir.  Er enghraifft, cyfarfu'r Cyfarwyddwr a'r ddau Gyfarwyddwr Cynorthwyol â Phennaeth ysgol a oedd yn cael ei hadolygu yn dilyn ei harolwg gan Estyn i gynnig cymorth i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed a sicrhau bod y gwasanaethau cymorth cywir yn cael eu darparu.

- Nododd Aelod y nifer sylweddol o welliannau sydd eu hangen yn yr ystâd ysgolion.  Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd, o ystyried y pwysau ar y rhaglen gyfalaf, fod yr ôl-groniad mewn buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion yn cael sylw cyfannol er mwyn sicrhau bod prosiectau brys yn cael eu blaenoriaethu.  Dywedodd y Cyfarwyddwr fod gwaith cynnal a chadw adweithiol yn parhau a bod y gwaith hwn yn cael ei wneud lle bo hynny'n briodol.  Mae buddsoddi cyfalaf yn gyfyngedig ac roedd yn bwysig sicrhau bod buddsoddi’n cael ei flaenoriaethu'n briodol.  O ganlyniad i'r cyfyngiadau a osodwyd, mae blaenoriaeth yn cael ei rhoi i iechyd a diogelwch, diogelu a gwaith atgyweirio mwy brys.  Mae arolygon cyflwr ar draws yr ystâd yn llywio lle orau i wneud buddsoddiadau o'r fath ar ben unrhyw waith atgyweirio brys adweithiol sydd ei angen.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar bwynt a wnaed ynghylch swyddogaethau statudol y Pwyllgor a geir o fewn y goblygiadau cyfreithiol yn yr adroddiad.  Cytunodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol i roi eglurhad yn dilyn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

70 : DIWEDDARIAD AR GYLLID GAN GYNNWYS MATERION GWYDNWCH

Cyflwynodd Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Swyddog Adran 151, ddiweddariad ariannol yn cynnwys materion gwytnwch a'r heriau ariannol sy'n wynebu'r awdurdod, gan gynnwys y sefyllfa bresennol, y setliad dros dro ar gyfer 2023/24 a diweddariad modelu cyllideb ar gyfer 2023/24.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

71 : Y RHAGLEN WAITH A DIWEDDARIAD AR AMSERLEN AC

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

72 : Y TÎM YMCHWILIO AC ARCHWILIO - DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad cynnydd yn rhoi diweddariad ar waith a pherfformiad y Timau Ymchwilio ac Archwilio Mewnol gan y Rheolwr Archwilio, Chris Pyke. Roedd yr adroddiad cynnydd yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2022.

Roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn tynnu sylw at y perfformiad mewn perthynas â'r Cynllun Archwilio Mewnol. Roedd yn crynhoi'r gwaith a gyflawnwyd, yr argymhellion blaenoriaeth a godwyd, y canfyddiadau critigol, y tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a chanfyddiadau gwerth am arian perthnasol ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi nad oes unrhyw farn archwilio 'anfoddhaol' wedi'i darparu dros y cyfnod adrodd. Roedd Atodiad 2 yn canolbwyntio ar weithgareddau rhagweithiol ac adweithiol ynghylch ymwybyddiaeth o dwyll, ei ganfod ac ymchwilio iddo, gan gynnwys cymryd rhan mewn mentrau, megis ymarferion paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol (MTG).

Rhoddodd y Rheolwr Archwilio fanylion yr asesiad cymheiriaid allanol parhaus sy'n cael ei gynnal. Rhagwelwyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2023.

Gofynnodd yr Aelodau am fanylion pellach nifer o ganfyddiadau archwilio a ddaeth i'r casgliad 'nad oedd angen gwella ymhellach' a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion. Cytunodd y Rheolwr Archwilio i ddarparu sesiwn friffio gryno ar ganfyddiadau'r archwiliad a sefyllfa diweddaru wrth fynd i'r afael â'r argymhellion. Gofynnodd Aelod am sicrwydd yn benodol ar leoliadau plant a sicrwydd cyn contract ar gyfer gwasanaethau plant.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad pellach ar y gyfradd ymateb i adborth ar gyfer archwiliadau. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod y gyfradd ymateb rhwng 50% a 60%.

Gofynnodd Aelod a oedd mecanweithiau ar waith i sicrhau bod gan sefydliadau y mae'r awdurdod yn ymrwymo i gontractau gyda nhw yswiriant indemniad proffesiynol perthnasol ar waith. Dywedodd y Rheolwr Archwilio, yn yr achos y cyfeirir ato yn yr adroddiad, fod mecanweithiau ar waith o fewn y fframwaith gwasanaethau cyfreithiol er mwyn i yswiriant gael ei ddilysu o bryd i'w gilydd er mwyn i'r sefydliadau hynny aros ar y fframwaith. Dywedodd y Rheolwr Archwilio, fel rhan o waith sicrhau cyn contract eang, fod archwilio mewnol a chaffael wedi atgyfnerthu pwysigrwydd rheolwyr yn cael sicrwydd bod yr holl yswiriant perthnasol ar waith yn briodol cyn ymrwymo i gontractau.

Nododd yr Aelodau y nifer fawr o ysgolion gydag argymhellion archwilio rhagorol. Gofynnodd yr Aelodau a yw asesiad o'r graddau y mae ysgolion yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol eu fframwaith trefniadau llywodraethu wedi'i gynnwys o fewn cwmpas archwiliadau ac a yw'r fframwaith yn cael ei weithredu'n effeithiol. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod yr Archwilydd Grŵp yn arwain ar waith llywodraethu ysgolion a rheolaethau system ariannol. Mae rhaglenni prawf wedi'u datblygu ac mae'r rhain yn gyfoes o ran gofynion rheoli. Roedd y Rheolwr Archwilio yn hyderus y bydd y rhain yn profi'r holl feysydd llywodraethu perthnasol.

Awgrymodd Aelod y dylai'r daenlen argymhellion archwilio fanwl fod ar gael i'r Aelodau trwy ddulliau amgen yn y dyfodol, efallai trwy Sharepoint. Roedd hyn er budd cyfyngu papurau'r Pwyllgor i gynnwys craidd, a chytunwyd ar hyn.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

73 : SIARTER ARCHWILIO MEWNOL DDRAFFT A CHRYNODEB O GYNLLUN ARCHWILIO 2023/24

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn cyflwyno i’r Aelodau’r Siarter Archwilio Mewnol Ddrafft ar gyfer 2023/24, gan gynnwys Cylch Gorchwyl drafft y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyflwyno’r Cynllun Archwilio Cryno Drafft ar gyfer 2023/24.

Gwahoddwyd yr Aelodau i roi sylwadau ar y Siarter Ddrafft a’r Cynllun Archwilio Drafft cyn i'r Pwyllgor gytuno ar y fersiynau terfynol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2023. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod y Siarter wedi'i diweddaru i adlewyrchu Cylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y'i diwygiwyd yn unol â chanllawiau statudol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) a Llywodraeth Cymru. Roedd y newidiadau i'r Cylch Gorchwyl i’w gweld yn yr adroddiad.

Gofynnodd Aelod i'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2023/24 gynnwys darpariaeth ar gyfer asesu cydymffurfiaeth fframweithiau llywodraethu ysgolion yn erbyn gofynion deddfwriaethol a mesurau i adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

74 : DIWEDDARIAD ADRODDIAD HUNANASESU CANOL BLWYDDYN

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Asesu Canol Blwyddyn y Cyngor. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y broses hunan-asesu ar gyfer datblygu'r adroddiad a gwneud unrhyw argymhellion priodol ar gyfer gwella.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Adroddiad Asesu Canol Mlynedd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 19 Ionawr 2023 ar ôl cael ei ystyried yn flaenorol gan y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad. Roedd copi o Adroddiad y Cabinet, yr Adroddiad Hunan-werthuso Hanner Blwyddyn, y Llythyr Craffu ac Ymateb y Cabinet ynghlwm wrth yr adroddiad.

Roedd Adroddiad y Cabinet yn nodi’r broses hunan-asesu a ddilynwyd wrth gynhyrchu'r Asesiad Perfformiad Canol Blwyddyn a'r dystiolaeth y mae casgliadau'r adroddiad yn seiliedig arni. Roedd yr adroddiad yn crynhoi meysydd cynnydd a gwelliant, gan nodi hefyd nifer o flaenoriaethau gwella strategol ar gyfer Chwarter 3 a Chwarter 4, sef:

- Pwysau Ariannol
- Ateb y Galw yn y Gwasanaethau Plant
- Sicrhau Ymateb Partneriaeth i Bwysau Galw yn System Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Ddinas
- Ymateb i'r Argyfwng Costau Byw
- Pwysau’r Gweithlu
- Tai

Croesawodd y Cadeirydd Gareth Newell, Pennaeth Perfformiad, i'r cyfarfod. Rhoddodd Gareth Newell gyflwyniad byr.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r canfyddiadau ac ystyried y broses hunan-asesu ar gyfer datblygu'r adroddiad. Gofynnodd y Cadeirydd am ohirio unrhyw sylwebaeth gan y Pwyllgor ar y broses hunan-asesu ac unrhyw argymhellion ar gyfer gwella nes bod y Pwyllgor wedi cael cyfle i ystyried y fframwaith perfformiad, gan gynnwys y broses hunan-asesu ac adrodd Canol Blwyddyn, mewn sesiwn friffio i'w chynnal yn Chwarter 4.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

75 : STRATEGAETH RHEOLI’R TRYSORLYS DDRAFFT 2023/24

Derbyniodd y Pwyllgor Strategaeth Reoli’r Trysorlys ddrafft ar gyfer 2023/24 y mae angen ei chymeradwyo fel rhan o’r Adroddiad ar y Gyllideb i'r Cyngor ym mis Mawrth 2023/24.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Ddrafft arfaethedig ar gyfer 2023/24 a chyflwyno unrhyw sylwadau yn ôl yr angen i'w hystyried fel rhan o'r ddogfen derfynol.

Gwahoddodd y Cadeirydd Anil Hirani, Rheolwr Gweithredol, Cyfalaf, Corfforaethol a'r Trysorlys i gyflwyno'r adroddiad. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod Strategaeth y Trysorlys a gweithgareddau'r Trysorlys yn canolbwyntio ar nodi risgiau allweddol. Mae Strategaeth y Trysorlys wedi ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru a CIPFA. Cyfeirir at y Strategaeth Gyfalaf o fewn Strategaeth y Trysorlys. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi mai proses sy'n gyrru'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (GAC) yw’r Strategaeth Gyfalaf. Roedd siart yn dangos tueddiadau’r GAC yn y presennol a’r dyfodol ei wedi’i chynnwys yn Strategaeth y Trysorlys.

Roedd y Strategaeth hefyd yn rhoi manylion y sefyllfa fuddsoddi a benthyca bresennol a chyfraddau llog wedi'u rhagweld, ynghyd â manylion dull yr awdurdod o ad-dalu dyledion. Gofynnwyd i'r Aelodau hefyd nodi dangosydd newydd sy'n ofynnol gan CIPFA mewn perthynas â meincnodi atebolrwydd.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol, o ran y Strategaeth Fuddsoddi, fod y ffocws yn parhau ar ddiogelwch, hylifedd a chynnyrch a bod y defnydd o feini prawf yn parhau heb ei newid a bod y meini prawf wedi’u nodi yn yr adroddiad.

Roedd y Rheolwr Gweithredol o'r farn ei bod yn bwysig ystyried sut y byddai gofyniad benthyca'r awdurdod yn effeithio ar Dîm y Trysorlys yn y dyfodol. Mae angen adolygu’r sgiliau a’r galluoedd o ran rheoli gweithgareddau'r trysorlys. Yn dilyn symud i'r gofyniad benthyca, efallai y bydd angen myfyrio ar y sgil bresennol o fewn Swyddogaeth y Trysorlys er mwyn sicrhau bod y gofyniad benthyca, ac unrhyw risg, yn cael ei reoli.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

76 : CAMAU ETO I’W CYFLAWNI

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

77 : GOHEBIAETH

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

78 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

79 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim eitemau brys.

80 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 21 Mawrth 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00 pm